

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Linell Amser

English

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

SEEBOHM, FREDERIC (1833 - 1912), hanesydd, bancer wrth ei alwedigaeth a Chrynwyr yn ei broffes grefyddol

Enw: Frederic Seebohm
Dyddiad geni: 1833
Dyddiad marw: 1912
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hanesydd, bancer wrth ei alwedigaeth a Chrynwyr yn ei broffes grefyddol
Maes gweithgaredd: Economeg ac Arian; Hanes a Diwylliant
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 23 Tachwedd 1833 yn Bradford, a bu farw 6 Chwefror 1912 yn Hitchin - am fanylion eraill ei yrfa a'i waith, gweler *D.N.B.*, 1912-21. Caiff le yn y gyfrol hon yn herwydd ei ymchwiliadau pwysig i hanes y 'gyfundrefn genhedlig' yng Nghymru gynt, a gyhoeddwyd yn ei lyfr enwog *The Tribal System in Wales*, 1895. Fel popeth a sgrifennodd Seebohm erioed, y mae hwn yn llyfr darllenadwy dros ben - yn wyrthiol felly a chofio 'sychder' ei bwnc. Erbyn heddiw (gweler e.e. ymdriniaeth **T. P. Ellis**) gwelir i Seebohm roi gormod pwys ar swydd y 'pencenedl' yn y cyfreithiau Cymreig - agwedd 'batriarchaidd' (fel y credai ef) yr hen fywyd cymdeithasol yng Nghymru. Ni lwyddodd chwaith i ddelio'n foddhaol â dadfeiliad a thrawsnewidiad yr hen drefn gymdeithasol. Ar gyfrif ei safle fel awdurdod ar hanes cynnar tir-ddaliad yng Nghymru, penodwyd Seebohm yn aelod o'r comisiwn brenhinol ar bwnc y tir yng Nghymru (1893); ei waith ef yw'r rhan fwyaf o'r nawfed bennod yn y llyfr *The Welsh People*, 1906, gan **John Rhys** a **David Brynmor Jones**, a seiliwyd ar ymchwiliadau'r comisiwn hwnnw. Gweler hefyd ei ysgrif yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1895-6.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Paul Vinogradoff, '**Seebohm, Frederic (1833-1912)**', *Oxford Dictionary of National Biography*

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 9916798

Wikidata: Q5497132

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

Jenkins, R. T., (1953). SEEBOHM, FREDERIC (1833 - 1912), hanesydd, bancer wrth ei alwedigaeth a Chrynwyr yn ei broffes grefyddol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-SEEB-FRE-1833>

Clippio

Preifatrwydd a Chwcis

Hawlfraint

Y Prosiect

Cymorth

Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government